PANEL CANIATÂD ARBENNIG Y PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2018

YN BRESENNOL:	**Aelodau Annibynnol**
	Mr Michael Wilson (Cadeirydd) Mr Islwyn Jones (Is-gadeirydd)
	Yn cynrychioli Cynghorau Tref / Cymuned
	Mr Keith Roberts
WRTH LAW:	Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) (MY) Swyddog Pwyllgor (SC)
HEFYD YN BRESENNOL:	Yr Athro Trefor Ashenden (Clerc Cyngor Tref Biwmares, ac hefyd yn cynrychioli'r Cynghorydd Stan Zalot (Cyngor Tref Biwmares) Cynghorydd Howard Mattocks (Cyngor Tref Biwmares) Cynghorydd Jason Zalot (Cyngor Tref Biwmares, Maer Biwmares)
YMDDIHEURIADAU:	Dim

---

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim.

2 CAIS AM GANIATAD ARBENNIG

Cyflwynwyd ceisiadau am ganiatâd arbennig i gael cymryd rhan ym musnes y Cyngor gan y Cynghorwyr Jason Zalot, Stan Zalot a Howard Mattocks, aelodau o Gyngor Tref Biwmares, ar faterion yn ymwneud ag adnewyddu Gorchymyn Pysgodfa Dwyrain Y Fenai. Mae'r ymgeiswyr wedi gofyn i'r Pwyllgor Safonau ystyried rhoi caniatâd arbennig mewn perthynas â diddordebau sy'n rhagfarnu, fel yr amlinellir ym mhob cais.

Croesawodd y Cadeirydd yr Athro Ashenden, Clerc Cyngor Tref Biwmares a'r Cynghorwyr Zalot a Mattocks i'r cyfarfod. Adroddodd y byddai pob cais am ganiatâd arbennig yn cael ei ystyried ar wahân ac ar ei rinweddau ei hun o ganlyniad i fân wahaniaethau ym mhob achos.

Rhoddodd yr Athro Ashenden grynodeb o gefndir y ceisiadau. Adroddodd fod Cymdeithas Rheoli Gorchmynion Pysgodfeydd Dwyrain Y Fenai yn ymgeisio am

adnewyddu'r Gorchymyn Pysgodfa, sy'n caniatáu ffermio cregyn gleision a charthu gwaelod y môr (dredging) ar hyd Y Fenai mewn ardal sy'n cynnwys Bae Biwmares ac sy'n agos i'r dref.

Adroddodd yr Athro Ashenden fod y Gymdeithas Reoli wedi rhoi sicrwydd na fydd adnewyddu'r Gorchymyn Pysgodfa yn effeithio ar hwylio, cerdded ar y blaendraeth na physgota â gwialen yn yr ardal. Fodd bynnag, mynegwyd pryder yn lleol dros nifer o flynyddoedd y byddai cynnwys Bae Biwmares yn y Gorchymyn yn bygwth presenoldeb parhaus yr angorfeydd dŵr dwfn sy'n hanfodol ar gyfer cynifer o weithgareddau. Byddai colli'r ardal dŵr dwfn neu leihad ym maint yr ardal yn cael effaith negyddol ar economi'r dref a'i thrigolion, ynghyd â gweithgareddau yn y bae.

Nodwyd bod y Gymdeithas Reoli wedi cadarnhau nad yw'n bwriadu carthu ardal yr angorfeydd na defnyddio ardal y bae. Fodd bynnag, nid yw'r Gorchymyn Pysgodfa, sydd yn y cyfnod ymgynghori ar hyn o bryd ac y bydd yn cael ei adnewyddu yn 2022, yn rhoi rheolaeth o'r ardal i'r Gymdeithas. Yn y gorffennol, cyflwynwyd cais i Weinidog Llywodraeth Cymru er mwyn eithrio'r rhan hon o'r bae a'r ardal sy'n agos i'r dref yn y Gorchymyn, gan fod angorfeydd wedi eu lleoli oddi ar ben y pier. O ganlyniad, gwrthodwyd y cais hwn.

Mae gan nifer o aelodau Cyngor Tref Biwmares ddiddordeb arbenigol yn y defnydd o'r bae o ran angorfeydd, pysgota, teithiau cwch pleser a mwynhad o'r ardal leol.

Nododd y Panel mai dim ond y Cynghorydd Stan Zalot sydd wedi gwneud cais i siarad â swyddogion y Cyngor Cymuned ac nad oes unrhyw Gynghorwyr wedi gofyn am ganiatâd arbennig i gael ysgrifennu at Swyddogion. Gan y bydd y cyfnod ymgynghori ar gyfer y Gorchymyn Pysgodfa yn parhau tan 2022, rhoddodd y panel cyfle i'r Cynghorwyr Jason Zalot a Howard Mattocks gynnwys "i ysgrifennu at a siarad â swyddogion y Cyngor Cymuned" yn eu ceisiadau am ganiatâd arbennig ac fe wnaethant gytuno i hynny. Cafodd cais y Cynghorydd Stan Zalot ei ddiwygio i gynnwys "i ysgrifennu at swyddogion".

Gofynnodd y Cadeirydd i Jason Zalot gyflwyno ei gais am ganiatâd arbennig.

Adroddodd y Cynghorydd Zalot ei fod wedi gweithio ar y cychod ym Miwmares yn cynnal teithiau pleser a physgota oddi ar y pier ers nifer o flynyddoedd a bod ganddo fusnes angori cyn hynny. Nododd ei fod bellach yn rhedeg busnes rib oddi ar y pier, yn cludo ymwelwyr ar hyd Y Fenai i Ynys Seiriol. Nodwyd y gallai cynnwys ardal y Bae yn y Gorchymyn Pysgodfa gael effaith ar fusnes rib y Cynghorydd Zalot, gan fod un o'i gychod yn rhedeg o'r pier yn yr haf.

Nododd y Cynghorydd Zalot ei fod yn berchen ar gwch hwylio sydd wedi'i angori uwchben y marc dŵr isel ym Mae Biwmares, nad yw'n cael ei effeithio gan y Gorchymyn Pysgodfa. Mae'r Cynghorydd Zalot hefyd yn aelod o Glwb Hwylio Brenhinol Ynys Môn ym Miwmares.

Adroddodd y Cynghorydd Zalot fod ganddo gyfoeth o brofiad o weithio ag angorfeydd ym Mae Biwmares ac ar Y Fenai. Cyfeiriodd at y diwydiant cregyn gleision a'r ffordd y mae wedi gweld y diwydiant yn tyfu, ynghyd â'r manteision a ddaeth i'r ardal a'r amgylchedd yn ei sgîl. Nododd fod ganddo wybodaeth arbenigol

er mwyn gallu trafod materion ag arbenigwyr yn y byd pysgota a'i fod yn gwybod sut mae'r Gymdeithas Reoli yn gweithredu, a fydd yn profi'n hanfodol wrth ddrafftio ymateb y Cyngor i'r Ymgynghoriad.

Holodd y Panel y Cynghorydd Zalot sut y byddai newidiadau i'r Gorchymyn Pysgodfa yn effeithio ar ei fusnes a'r gymuned ym Miwmares?

Ymatebodd y Cynghorydd Zalot gan ddweud, na fyddai tynnu'r angorfeydd o Fiwmares yn effeithio'n sylweddol ar ei fusnes ef ond y byddai'n anghyfleus iddo gan y byddai'n rhaid iddo ddefnyddio angorfeydd sydd ganddo mewn lleoliadau eraill. O ran y gymuned leol, mynegodd y byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar y dref gan fod Clwb Hwylio Brenhinol Ynys Môn yn ddibynnol ar angorfeydd dŵr dwfn.

Holodd y Panel a fyddai busnesau yn nhref Biwmares a allai fod yn dibynnu ar y diwydiant pysgota yn dioddef petai amodau'r Gorchymyn yn newid. Nodwyd, gan fod Biwmares yn canolbwyntio ar dwristiaeth, y byddai'n cael effaith ddifrifol ar fusnesau lleol.

Adroddodd y Cynghorydd Zalot y byddai colli'r teithiau pleser a'r teithiau cwch yn cael effaith sylweddol ar y dref gan fod 60,000-70,000 o ymwelwyr yn cael eu cludo ar gychod o'r pier bob blwyddyn, sy'n cyflogi 20-25 o bobl. Dywedodd y Cynghorydd Zalot fod y busnes y mae o'n un o'r rhanddeiliaid ynddo yn cyflogi 9-10 o bobl.

Nodwyd y câi effaith andwyol hefyd ar y ffordd y mae'r dref yn edrych pe na byddai cychod yn y bae a phetai'r banciau tywod yn cael eu clirio.

Cyfeiriwyd at amodau'r drwydded, sydd ar hyn o bryd yn rhoi hawliau pysgodfa helaeth. Adroddodd yr Athro Ashenden fod y Gorchymyn Pysgodfa Gwreiddiol yn nodi fod yr ardal yn cynnwys 1,928 erw i'r dwyrain o'r grîn ym Miwmares a'r Fenai. Nodwyd y cafodd y Gorchymyn ei ddiwygio ym 1962 ac y cafodd yr ardal ar gyfer y bysgodfa cregyn gleision a wystrys ei lleihau. Adroddodd Yr Athro Ashenden fod y Cyngor Tref bellach am i ewyllys da y Gymdeithas Reoli gael ei ffurfioli ac y bydd y Cyngor Tref yn chwilio am ddatrysiad fel bod y Gorchymyn Pysgodfa yn cael ei gyfyngu i eithrio'r ardal lle mae'r angorfeydd wedi eu lleoli yn ardal y bae.

Gadawodd Aelodau'r Cyngor Tref yr ystafell tra cynhaliodd Aelodau'r Panel drafodaeth mewn sesiwn breifat.

Yn dilyn y sesiwn breifat, hysbysodd y Cadeirydd y Cynghorwyr Tref y byddai'r Panel yn cyhoeddi ei benderfyniad mewn perthynas â phob cais ar ddiwedd y cyfarfod.

Aeth y Pwyllgor yn ei flaen i ystyried cais y Cynghorydd Stan Zalot, nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod ond a gynrychiolwyd gan yr Athro Ashenden. Adroddodd yr Athro Ashenden fod gan y Cynghorydd Zalot brofiad helaeth o weithio ar Y Fenai, yn cynnal teithiau pleser a theithiau pysgota o'r pier ym Miwmares. Nodwyd fod y Cynghorydd Zalot yn gwbl ymwybodol o'r farn leol a'i fod yn ymwneud â materion lleol ac yn cadw cysylltiad â thrigolion y dref.

Adroddodd yr Athro Ashenden fod y Gorchymyn Pysgodfa yn cynnwys ardal rhwng Blundell Sands a Flagstaff. Nododd, er nad yw'r Gymdeithas Reoli yn defnyddio'r ardal ar hyn o bryd, bod posibilrwydd i'r Gorchymyn Pysgodfa ymestyn i'r bae. Mae pobl leol wedi mynegi pryder mewn perthynas â'r effaith bosibl ar dwristiaeth, yr economi leol, yr effaith ar gartrefi gwyliau a Chlwb Hwylio Brenhinol Ynys Môn, petai ewyllys da y Gymdeithas yn hyn o beth yn cael ei dynnu'n ôl.

Gadawodd Aelodau'r Cyngor Tref yr ystafell tra bu Aelodau'r Panel yn trafod mewn sesiwn breifat.

Yn dilyn y sesiwn breifat, aeth y Pwyllgor rhagddo i ystyried cais y Cynghorydd Howard Mattocks, a gafodd y cyfle i annerch y panel a rhoi ei resymau am ganiatâd arbennig.

Adroddodd y Cynghorydd Mattocks ei fod wedi bod yn hwylio ar Y Fenai ers chwe deg o flynyddoedd a bod ganddo brofiad helaeth o'r ardal. Nododd mai'r rheswm y mae'n gwneud cais am ganiatâd arbennig yw bod ganddo ddau angorfa dŵr dwfn, y mae'n datgan diddordeb ynddynt. Nododd ymhellach fod ganddo gyfoeth o brofiad i'w gynnig i'r Cyngor Tref ond ei fod hefyd yn poeni am yr effaith y gallai'r Gorchymyn ei gael ar yr holl Dref. Nodwyd, petai'r Gymdeithas Bysgodfeydd yn cymryd yr ardal, y byddai'n cael effaith hynod ddinistriol ar Glwb Hwylio Brenhinol Ynys Môn. Mae'r Cynghorydd Mattocks yn gyn lywydd y Clwb Hwylio.

Nododd y Panel nad oes unrhyw ddiddordeb masnachol i gais y Cynghorydd Mattocks, diddordeb llesiant yn unig ydyw.

Holodd y Panel a oedd gan y Cynghorydd Mattocks gynllun amgen petai'r Gorchymyn Pysgodfa yn cynnwys angorfeydd. Ymatebodd y Cynghorydd Mattocks nad oedd ganddo unrhyw gynlluniau i symud ei gwch hwylio i leoliad gwahanol ond mynegodd y byddai'n cael effaith ddinistriol yn lleol ar yr ardal lle mae Clwb Hwylio Brenhinol Ynys Môn wedi'i lleoli.

Nododd y Panel fod diddordeb y Cynghorydd Mattocks yn berthnasol i'r Clwb Hwylio yn ogystal â'r Cyngor Tref. Adroddodd y Cynghorydd Mattocks fod y rhan fwyaf o'r angorfeydd dŵr dwfn yn y bae yn rhai y mae aelodau'r Clwb hwylio yn berchen arnynt a bod gan y clwb 400 o Aelodau.

Mae tua 200 o angorfeydd dŵr dwfn wedi eu lleoli yn yr ardal ac mae 90% o'r rhain yn cael eu defnyddio'n lleol yn y gymuned. Nid yw traean o Aelodau'r Clwb Hwylio yn lleol i Biwmares ond mae cysylltiad rhyngddynt â'r effaith y gallai'r Gorchymyn Pysgodfa ei gael ar y gymuned leol.

Cafwyd trafodaeth ymysg Aelodau'r Panel mewn sesiwn breifat. Yn dilyn y drafodaeth, cyhoeddodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Safonau wedi **PENDERFYNU rhoi caniatâd arbennig i'r Cynghorwyr mewn perthynas â'r diddordebau hynny y cyfeiriwyd atynt yn eu ceisiadau, fel a ganlyn:-**

Bod y caniatâd arbennig a roddir i'r Cynghorydd Jason Zalot a'r Cynghorydd Stan Zalot yn caniatáu i'r Cynghorwyr:-

• ysgrifennu at swyddogion [a/neu'r Cyngor Tref/Cymuned] mewn perthynas â'r mater;
• siarad â swyddogion y Cyngor Tref am y mater;
• siarad mewn cyfarfodydd pwyllgor/cyfarfodydd Cyngor Tref ac ateb unrhyw gwestiynau am y mater;
• aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth
• ni chawsant ganiatâd arbennig i gael pleidleisio.

Mae'r Caniatâd Arbennig a roddwyd i'r Cynghorydd Howard Mattock yn caniatáu i'r Cynghorydd:-

• ysgrifennu at swyddogion [a/neu'r Cyngor Tref/Cymuned] mewn perthynas â'r mater;
• siarad â swyddogion y Cyngor Tref am y mater;
• siarad mewn cyfarfodydd pwyllgor/cyfarfodydd Cyngor Tref ac ateb unrhyw gwestiynau am y mater;
• aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth
• pleidleisio.

Bydd y caniatâd arbennig yn berthnasol ar gyfer tymor y Cyngor Tref neu tan y bydd y Gorchymyn Pysgodfa wedi'i adnewyddu yn 2022.

Gofynnodd y Cadeirydd bod y tri Cynghorydd, pob un ohonynt sydd â diddordeb sy'n rhagfarnu, yn nodi'n glir eu bod wedi cael caniatâd arbennig i siarad mewn cyfarfodydd Cyngor Tref ar y pwnc hwn rhwng rŵan a 2022.

Mae'r Pwyllgor yn dymuno nodi y cafodd yr hawl i bleidleisio ei wrthod i'r Cynghorwyr Jason Zalot a Stan Zalot oherwydd natur ariannol eu diddordeb.

Gweithred:

- **Y Swyddog Monitro i ysgrifennu at y Cynghorwyr Jason Zalot, Stan Zalot a Howard Mattocks yn cadarnhau fod y Panel wedi rhoi caniatâd arbennig iddynt mewn perthynas â'r diddordebau sy'n rhagfarnu a hynny am y rhesymau a nodwyd ac yn amodol ar y telerau a'r amodau a amlinellwyd uchod.**
- **Y Swyddog Monitro i ysgrifennu at Glerc Cyngor Tref Biwmares yn cadarnhau'r uchod.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.45 pm

MR MICHAEL WILSON
CADEIRYDD